



Rheilffyrdd Ffestiniog ac Eryri Ffestiniog & Welsh Highland Railways

Gorsafyr Harbwr / Harbour Station, Porthmadog, Gwynedd, LL49 9NF

☎ 01766 516000 📠 01766 516006

enquiries@ffwhr.com

HYSBYSIAD PREIFATRWYDD I YMGEISWYR AM WAITH GYDA CHWMNI RHEILFFORDD FFFESTINIOG YN UNOL Â'R RHEOLIAD DIOGELU DATA CYFFREDINOL (GDPR)

Beth yw diben y ddogfen hon?

Mae Cwmni Rheilffordd Ffestiniog yn "rheolwr data". Mae hynny'n golygu ein bod yn gyfrifol am benderfynu sut y byddwn yn cadw ac yn defnyddio gwybodaeth bersonol amdanoch. Rydym wedi anfon copi o'r hysbysiad preifatrwydd hwn atoch oherwydd eich bod yn gwneud cais i weithio gyda ni (boed hynny fel cyflogai, gweithiwr neu gontractwr). Mae'n dweud wrthyfych sut a pham y bydd eich data personol yn cael ei ddefnyddio, sef at ddibenion y drefn recriwtio, am ba hyd y bydd fel arfer yn cael ei gadw a beth yw eich hawliau mewn perthynas â'r wybodaeth honno. Mae'n rhoi i chi wybodaeth benodol y mae'n rhaid ei darparu o dan y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol ((UE) 2016/679) (GDPR). Nid yw'r hysbysiad hwn yn gontractiol a gallwn ddiweddarau'r hysbysiad hwn ar unrhyw adeg.

Egwyddorion diogelu data

Byddwn yn cydymffurfio â deddfwriaeth ac egwyddorion diogelu data, sy'n golygu y bydd eich data:

- Yn cael ei gadw a'i ddefnyddio'n gyfreithlon, yn deg ac mewn ffordd dryloyw;
- Wedi ei gasglu'n unig at ddibenion dilys y byddwn wedi eu hesbonio'n eglur i chi a heb ei ddefnyddio mewn unrhyw ffordd nad yw'n gydnaws â'r dibenion hynny;
- Yn ddigonol ac yn berthnasol ar gyfer y dibenion y byddwn wedi dweud wrthyfych amdanant ac yn gyfyngedig i'r dibenion hynny yn unig;
- Yn gywir ac yn gyfoes;

- Yn cael ei gadw ond gyhyd ag y bo'n angenrheidiol ar gyfer y dibenion y byddwn wedi dweud wrthy ch amdanynt;
- Yn cael ei gadw'n ddiogel.

Y math o wybodaeth y byddwn yn ei chadw amdanoch

Mewn cysylltiad â'ch cais am waith gyda ni, gallwn gasglu, storio a defnyddio'r categorïau canlynol o wybodaeth bersonol amdanoch:

- Yr wybodaeth rydych wedi ei darparu i ni yn eich curriculum vitae a'ch llythyr eglurhaol;
- Yr wybodaeth rydych wedi ei darparu ar eich ffurflen gais, gan gynnwys eich enw, teitl, cyfeiriad, rhif ffôn, cyfeiriad e-bost personol, dyddiad geni, rhyw, hanes cyflogaeth a chymwysterau;
- Unrhyw wybodaeth y byddwch yn ei darparu i ni yn ystod cyfweiliad;
- Unrhyw wybodaeth a ddarperir yn ystod proses ymgeisio, gan gynnwys manylion canolwyr, gwiriadau hawl i weithio, gwybodaeth y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, manylion cyflog, cofnodion salwch a chofnodion disgyblaethol.

Nid yw'r rhestr uchod yn hollgynhwysol ond fe'i bwriedir i roi syniad eglur i chi o'r math o wybodaeth bersonol amdanoch y byddwn yn ei phrosesu.

Gallwn hefyd gasglu, storio a defnyddio'r "categoriâu arbennig" canlynol o wybodaeth bersonol fwy sensitif:

- Gwybodaeth ynghylch eich hil neu eich ethnigrwydd, eich credoau crefyddol neu athronyddol, eich bywyd rhywiol neu eich cyfeiriadedd rhywiol, aelodaeth undebau llafur a safbwyntiau gwleidyddol;
- Gwybodaeth ynghylch eich iechyd, gan gynnwys ynghylch unrhyw gyflwr meddygol, a chofnodion iechyd a salwch;
- Gwybodaeth ynghylch euogfarnau a thramgwyddau troseddol gwirioneddol neu honedig.

Mae gwybodaeth o'r fath yn arbennig o sensitif ac o'r herwydd byddwn ond yn prosesu'r wybodaeth hon pan fo hynny'n gwbl angenrheidiol: byddwn yn sicrhau mai ond y bobl y mae'n rhaid iddynt ei gweld sydd yn ei gweld; a byddwn yn ei chadw'n ddiogel. Mae'n ofynnol o dan y gyfraith bod gennym ddogfen bolisi sydd yn nodi sut rydym yn diogelu'r

fath wybodaeth ac am ba hyd y byddwn yn cadw'r wybodaeth. Byddwn yn adolygu ein dogfen bolisi ar wybodaeth o'r fath o bryd i'w gilydd.

Dylech nodi mai mater gwirfoddol yw darparu gwybodaeth i ni at ddibenion monitro amrywiaeth. Bydd yn cael ei chadw'n ddiennw cyn belled ag y gellir, a phan na fydd hynny'n bosibl, gellir defnyddio ffugenwau (pan fyddwn yn defnyddio mesurau diogelu sy'n ei gwneud yn anodd adnabod â phwy mae'r wybodaeth yn gysylltiedig) a bydd gennych yr hawl i ddweud wrthym nad ydych mwyach yn dymuno i ni brosesu rhai mathau o wybodaeth amdanoch at ddibenion monitro amrywiaeth.

Sut caiff eich gwybodaeth bersonol ei chasglu?

Byddwn yn casglu gwybodaeth bersonol ynghylch ymgeiswyr o'r ffynonellau canlynol:

- Y chi, yr ymgeisydd;
- Unrhyw asiantaeth recriwtio y byddwn yn casglu data oddi wrthi;
- Y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ynghylch euogfarnau troseddol;
- Eich canolwyr;
- Gwybodaeth rydych eisoes wedi'i gwneud yn gyhoeddus (er enghraifft, yn y parth cyhoeddus drwy gyfryngau cymdeithasol);
- Trydydd partïon eraill, er enghraifft, aelod o'n staff neu gwsmer.

Sut y byddwn yn defnyddio gwybodaeth amdanoch a pham rydym yn ei chasglu

Rydym yn casglu gwybodaeth er mwyn arfer diwydrwydd dyladwy ynghylch y bobl rydym yn eu recriwtio, er mwyn sicrhau ein bod yn penodi'r unigolyn gorau ar gyfer y swydd, ac i gydymffurfio â'n rhwymedigaethau a'n dyletswyddau cyfreithiol tuag atoch chi a thuag at yr awdurdodau rheoleiddio ac adrannau llywodraeth. Byddwn yn defnyddio'r wybodaeth bersonol y byddwn yn ei chasglu amdanoch i'r dibenion canlynol:

- Asesu eich sgiliau, eich cymwysterau a'ch addasrwydd ar gyfer y swydd;
- Cynnal gwiriadau cefndir a geirdaon, pan fo'n berthnasol;
- Cyfathrebu â chi ynghylch y broses recriwtio;
- Cadw cofnodion ynghylch ein prosesau penodi;
- Cydymffurfio â gofynion cyfreithiol neu reoleiddiol;
- Gwneud addasiadau rhesymol neu gyflawni asesiad risg.

Rydym yn defnyddio cwmnïau eraill ar gyfer rhai tasgau o dan amgylchiadau cyfyngedig. Gellir casglu gwybodaeth amdanoch oddi wrth y sefydliadau canlynol, ei darparu iddynt a'i defnyddio ganddynt:

- Asiantaethau recriwtio, sy'n darparu manylion eich CV a gwybodaeth arall rydych wedi ei rhoi iddynt;
- Ein ymgynghoriaethau darganfod swyddogion allanol;
- Ein darparwr profi seicometrïg allanol;
- Tollau Tramor a Chartref ei Mawrhydi, cyrff rheoleiddio ac Adrannau Llywodraeth er mwyn cydymffurfio â'n rhwymedigaethau cyfreithiol;
- Trydydd partïon eraill y mae gennym reswm cyfreithlon i rannu'r wybodaeth â hwy (megis contractwyr, darparwyr buddiannau neu gynghorwyr proffesiynol allanol) pan fyddwn wedi sefydlu'r canllawiau diogelwch angenrheidiol i ddiogelu eich gwybodaeth. Pan fo'n bosibl, gwneir yr wybodaeth yn ddienw ond os na ellir gwneud hynny gofynnir i'r sawl sy'n derbyn yr wybodaeth gydymffurfio â'r polisiau a'r gweithdrefnau angenrheidiol i sefydlu mesurau diogelwch a chyfrinachedd digonol (oni bai bod eithriad yn gymwys a/neu ein bod o dan rwymedigaeth broffesiynol neu gyfreithiol i ddatgelu'r wybodaeth);
- Llysoedd a thriwiwnlysoedd pan fo hynny'n angenrheidiol i brofi neu amddiffyn yn erbyn hawliadau cyfreithiol;
- Y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd pan fo'n berthnasol i'r gwaith dan sylw.

Gallwn drosglwyddo'r wybodaeth bersonol rydym yn ei chasglu amdanoch i wledydd y tu allan i'r Ardal Economaidd Ewropeaidd. Er mwyn sicrhau y diogelir eich gwybodaeth bersonol rydym wedi sefydlu mesurau addas i sicrhau bod y cyrff hynny'n ymdrin â'ch gwybodaeth mewn ffordd sy'n cydymffurfio â deddfwriaeth diogelu data'r Undeb Ewropeaidd a'r Deyrnas Unedig.

Nid ydym yn rhannu eich gwybodaeth â chyrrff allanol heblaw at y dibenion a nodir uchod ac ni fyddwn yn gwerthu nac yn darparu gwybodaeth amdanoch i unrhyw gorff at ddibenion marchnata uniongyrchol heb eich caniatâd.

Rydym yn ystyried diogelu data'n fater pwysig iawn. Bydd yr wybodaeth y byddwn yn ei chasglu wrth brosesu eich cais i weithio gyda ni ond yn cael ei defnyddio at ddibenion asesu eich cais, ac mewn perthynas ag unrhyw waith y byddwch yn ei wneud i ni os bydd eich cais yn llwyddiannus. Os byddwch yn ymuno â ni, bydd disgwyl i chi gydymffurfio â'n Polisi Diogelu Data, sydd yn amlinellu'r gyfraith ynghylch diogelu data ac yn nodi'r ffyrdd yr ydym yn ymdrin â phob data personol, gan gynnwys data personol ein cleientiaid, ein cwsmeriaid, ein cyflenwyr a'n cysylltiadau.

Ar ba sail ydym yn prosesu eich gwybodaeth bersonol?

Rydym yn dibynnu ar nifer o resymau cyfreithlon dros brosesu'r wybodaeth a nodir uchod yn ystod y broses recriwtio. Bydd rhai o'r rhesymau'n gorgyffwrdd a gallai fod sawl rheswm sy'n cyfiawnhau ein defnydd o'ch gwybodaeth bersonol. Y prif resymau cyfreithlon yw:

- Ei fod er ein buddiannau cyfreithlon wrth benderfynu a fyddwn yn eich penodi i swydd ac i sicrhau ein bod yn cyflogi'r unigolyn gorau ar gyfer y gwaith ac ar gyfer ein busnes a, pan fo angen, i brofi neu i amddiffyn yn erbyn hawliadau cyfreithiol;
- Ei fod yn angenrheidiol er mwyn i ni allu cydymffurfio â rhwymedigaeth gyfreithiol, er enghraifft, cydymffurfio â deddfwriaeth cyflogaeth a gofynion rheoleiddiol;
- Ei fod yn angenrheidiol er mwyn i ni allu gymryd camau ar eich cais chi cyn cytuno ar unrhyw gontract arfaethedig â chi.

Byddwn ond yn defnyddio eich gwybodaeth bersonol i'r dibenion y casglasom yr wybodaeth ar eu cyfer, oni bai ein bod yn ystyried yn rhesymol bod angen i ni ei defnyddio at ddiben arall a bod y diben hwnnw'n gydnaws â'r diben gwreiddiol. Os bydd angen i ni ddefnyddio eich gwybodaeth bersonol at ddiben anghysylltiedig, byddwn yn eich hysbysu a byddwn yn egluro'r sail gyfreithiol sy'n caniatáu i ni wneud hynny. Nodwch y gallwn brosesu eich gwybodaeth bersonol heb eich gwybodaeth na'ch caniatâd, yn unol â'r rheolau uchod, pan fo'r gyfraith yn gofyn neu'n caniatáu hynny.

Os methwch â darparu gwybodaeth bersonol

Os methwch â darparu gwybodaeth pan ofynnir amdani, a honno'n wybodaeth statudol neu contractiol neu'n wybodaeth sydd ei hangen er mwyn i ni ystyried eich cais (megis tystiolaeth ynghylch cymwysterau neu hanes gwaith), mae'n bosibl na fyddwn yn gallu prosesu eich cais yn llwyddiannus - er enghraifft, os oes arnom angen gwiriad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd neu os byddwch yn methu â darparu gwybodaeth i'n galluogi i wirio eich hawl i weithio. Os digwydd hynny, byddwn yn ceisio rhoi cyfle digonol i chi ddarparu'r wybodaeth.

Sut y byddwn yn defnyddio categorïau arbennig o wybodaeth

Ar gyfer "categorïau arbennig" o wybodaeth bersonol (fel y'u disgrifir uchod), neu wybodaeth sy'n ymwneud ag euogfarnau troseddol, cyflawni neu honiadau ynghylch cyflawni tramgwyddau troseddol, neu gamau cyfreithiol troseddol, mae rhesymau cyfreithlon penodol ar wahân y byddwn yn dibynnu arnynt yn ogystal â'r rhai a nodir uchod. Byddwn ond yn defnyddio eich gwybodaeth bersonol arbennig o sensitif yn y ffyrdd canlynol:

- Pan fo'n angenrheidiol er mwyn cyflawni ein rhwymedigaethau ninnau neu chithau, neu i weithredu ein hawliau chithau neu ninnau, ym maes deddfwriaeth cyflogaeth neu ddeddfwriaeth nawdd cymdeithasol. Er enghraifft, byddwn yn defnyddio gwybodaeth ynghylch eich statws anabledd i benderfynu a oes angen i ni wneud addasiadau priodol yn ystod y broses recriwtio, er enghraifft, yn ystod y broses gyfweld;
- Pan fo'r wybodaeth bersonol yn amlwg wedi'i gwneud yn gyhoeddus gennych chi, er enghraifft, ei bod yn y parth cyhoeddus drwy gyfryngau cymdeithasol;
- Pan fo'n angenrheidiol mewn perthynas â hawliadau cyfreithiol, er enghraifft, pe byddech yn dod â hawliad yn ein herbyn yn honni nad ydym wedi eich penodi oherwydd nodwedd warchoddedig benodol sy'n gymwys i chi;
- Pan fo'n angenrheidiol oherwydd ystyriaeth lles y cyhoedd sylweddol. Mae cyfraith y Deyrnas Unedig yn gosod monitro amrywiaeth a chyfle cyfartal o fewn y categori hwn ar yr amod bod camau diogelwch penodol wedi'u cymryd. Byddwn yn defnyddio gwybodaeth ynghylch eich hil neu eich tarddiad cenedlaethol neu ethnig, eich credoau crefyddol, athronyddol neu foesol, neu eich bywyd rhywiol neu eich cyfeiriadedd rhywiol, er mwyn sicrhau gallu monitro ac adrodd yn ysturlon ynghylch cyfle cyfartal.

Gwybodaeth ynghylch euogfarnau troseddol

Rydym yn rhagweld y byddwn yn prosesu gwybodaeth ynghylch euogfarnau troseddol.

Byddwn yn casglu gwybodaeth ynghylch eich hanes o safbwynt euogfarnau troseddol os byddwn yn dymuno cynnig swydd i chi, yn dibynnu a yw'r swydd yn gofyn hynny (ar yr amod bod gwiriadau ac unrhyw amodau eraill, megis geirdaon, yn foddhaol). O dan rai amgylchiadau mae gofyn i ni gyflawni gwiriad cofnodion troseddol er mwyn bod yn fodlon nad oes dim yn eich hanes euogfarnau troseddol sydd yn eich gwneud yn anaddas ar gyfer y swydd. Yn benodol:

- Mae'r gyfraith yn mynnu ein bod yn ceisio cofnod troseddol cyflawn o dystysgrif y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (gan gynnwys hefyd gwiriad rhestr unigolion gwaharddedig y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd os yw'r gwaith yn weithgaredd a reoleiddir) ar gyfer unigolion y bydd prif ddiben eu gwaith gyda ni'n cynnwys gweithio gyda phlant neu oedolion agored i niwed;
- Pan fo'r swydd yn gofyn gradd uchel o ymddiriedaeth a hygredded gallwn ofyn i chi geisio datgeliad sylfaenol o'ch hanes troseddol, er enghraifft, er mwyn sicrhau trwydded bersonol i werthu alcohol.

Mae gennym ddogfen bolisi briodol a chamau diogelu y mae'r gyfraith yn mynnu ein bod yn glynu wrthynt wrth brosesu data o'r fath.

Rhannu data

Pam fydddech chi'n rhannu fy ngwybodaeth bersonol â thrydydd partïon?

Byddwn ond yn rhannu eich gwybodaeth bersonol â thrydydd partïon at ddibenion prosesu eich cais. Mynnir bod ein holl ddarparwyr gwasanaethau trydydd parti yn sefydlu mesurau diogelwch priodol i ddiogelu eich gwybodaeth bersonol yn unol â'n polisïau. Nid ydym yn caniatáu i ddarparwyr gwasanaeth trydydd parti ddefnyddio eich data personol at eu dibenion eu hunain. Rydym ond yn caniatáu iddynt brosesu eich data personol at ddibenion dynodedig a hynny yn unol â'n cyfarwyddiadau ninnau.

Diogelwch data

Rydym wedi rhoi mesurau diogelwch priodol ar waith i warchod eich gwybodaeth bersonol rhag cael ei cholli'n ddamweiniol, ei defnyddio neu ei chyrru mewn ffordd anawdurdodedig, ei newid neu ei datgelu. Yn ogystal, rydym ond yn caniatáu mynediad at eich gwybodaeth bersonol i'r cyflogaion, yr asiantwyr, y contractwyr a'r trydydd partïon eraill sydd â rheswm busnes dros wybod. Byddant ond yn prosesu eich gwybodaeth bersonol yn unol â'n polisïau a'n gweithdrefnau diogelu data.

Mae gennym weithdrefnau wedi'u sefydlu i ymdrin ag unrhyw fethiant diogelwch data a amheuir a byddwn yn eich hysbysu chi ac unrhyw gorff rheoleiddio sy'n berthnasol bod amheuaeth o fethiant pan fo dyletswydd gyfreithiol arnom i wneud hynny.

Cadw data

Am ba hyd fyddwch chi'n defnyddio fy ngwybodaeth?

Os bydd eich cais i weithio i ni'n llwyddiannus, byddwn yn prosesu eich gwybodaeth gyhyd ag y byddwch mewn perthynas waith â ni. Pan fydd eich perthynas waith â ni'n dechrau byddwn yn rhoi Hysbysiad Preifatrwydd i chi sy'n nodi sut y byddwn yn prosesu eich data yn ystod ein perthynas waith â chi ac ar ôl i'r berthynas honno ddod i ben.

Byddwn yn cadw eich gwybodaeth bersonol am gyfnod o naw mis ar ôl i ni roi gwybod i chi ein bod wedi penderfynu peidio â'ch penodi i swydd. Rydym yn cadw gwybodaeth bersonol gyfyngedig am y cyfnod hwnnw am resymau cyfreithiol neu yn unol â'n rhwymedigaethau cyfreithiol. Ar ôl y cyfnod hwnnw, byddwn yn dinistrio eich gwybodaeth bersonol mewn ffordd ddiogel yn unol â'n polisi cadw data.

Os hoffech i ni gadw eich gwybodaeth bersonol ar ffeil, ar y sail y gallai cyfle arall godi yn y dyfodol ac y gallem ddymuno eich ystyried ar gyfer hwnnw, byddwn yn ysgrifennu atoch

ar wahân i geisio eich caniatâd ysgrifenedig i ni gadw eich gwybodaeth bersonol am derm penodol o 12 mis ar y sail honno.

Hawliau mynediad, cywiro, dileu a chyfyngu

Eich hawliau parthed gwybodaeth bersonol

O dan rai amgylchiadau, mae gennych yr hawl yn ôl y gyfraith i wneud y canlynol:

- **Gofyn am fynediad** at eich gwybodaeth bersonol (a elwir yn gyffredin yn “gais mynediad gan wrthrych data personol”). Mae hyn yn eich galluogi i dderbyn copi o’r wybodaeth bersonol rydym yn ei chadw amdanoch i wirio ein bod yn ei phrosesu mewn modd cyfreithlon;
- **Gofyn am gywiro’r** wybodaeth bersonol rydym yn ei chadw amdanoch. Mae hyn yn eich galluogi i sicrhau bod unrhyw wybodaeth rydym yn ei chadw amdanoch sydd yn anghyflawn neu’n anghywir yn cael ei chywiro;
- **Gofyn am ddileu** eich gwybodaeth bersonol. Mae hyn yn eich galluogi i ofyn i ni ddileu neu gael gwared â gwybodaeth bersonol pan na fydd rheswm da i ni barhau i’w phrosesu. Mae gennych hefyd yr hawl i ofyn i ni ddileu neu gael gwared â’ch gwybodaeth bersonol pan fyddwch wedi defnyddio eich hawl i wrthwynebu ei phrosesu (gweler isod);
- **Gwrthwynebu prosesu** eich gwybodaeth bersonol pan rydym yn dibynnu ar fuddiant cyfreithlon (neu fuddiant cyfreithlon trydydd parti) a bod yna rywbeth ynghylch eich sefyllfa arbennig chi sydd yn gwneud i chi ddymuno gwrthwynebu prosesu ar y sail honno. Mae gennych hefyd yr hawl i wrthwynebu pan rydym yn prosesu eich gwybodaeth bersonol at ddibenion marchnata uniongyrchol;
- **Gofyn i ni roi’r gorau i brosesu eich gwybodaeth bersonol neu gyfyngu ar hynny.** Mae hyn yn eich galluogi i ofyn i ni atal prosesu gwybodaeth bersonol amdanoch, er enghraifft, os ydych am i ni sicrhau ei bod yn gywir neu sicrhau bod rheswm dilys dros ei phrosesu;
- **Gofyn am drosglwyddo** eich gwybodaeth bersonol i barti arall.

Os ydych am adolygu, gwirio, cywiro neu ofyn am ddileu eich gwybodaeth bersonol, neu am ofyn i ni drosglwyddo copi o’ch gwybodaeth bersonol i barti arall, cysylltwch â’r Rheolwr Cyffredinol.

Os ydych yn anfodlon â’r ffordd rydym yn defnyddio eich gwybodaeth bersonol neu os ydych am gwyno ynghylch ein defnydd o wybodaeth, cysylltwch â’r Rheolwr Cyffredinol.

Os na fedrwn ninnau ddatrys eich cwyn, mae gennych yr hawl i gwyno i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, sef y rheoleiddiwr statudol ar gyfer materion diogelu data. Gellir cysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth yn <https://ico.org.uk/concerns/>.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau ynghylch yr Hysbysiad Preifatrwydd, os hoffech unrhyw wybodaeth bellach neu os hoffech drafod unrhyw un o'r pwyntiau uchod ymhellach, mae croeso i chi gysylltu â'r Rheolwr Cyffredinol.